DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Practis Orthodontig Cas-gwent

8 Mawrth 2016

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-6489-6
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 3

3. Crynodeb ........ 4

4. Canfyddiadau ........ 5

Ansawdd Profiad y Claf ........ 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 12

5. Camau Nesaf ........ 14

6. Methodoleg ........ 15

Atodiad A ........ 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a’r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Mhractis Orthodontig Cas-gwent yn 6A Arcêd y Santes Fair, Cas-gwent, Sir Fynwy, ar 8 Mawrth 2016.

Archwiliodd AGIC y ffordd yr oedd Practis Orthodontig Cas-gwent yn bodloni’r safonau gofal a nodwyd yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) ac mewn deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd am arolygiadau deintyddol ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad gyda chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr i sicrhau bod barn cleifion wrth wraidd ein dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae’r gwasanaethau yn cyflenwi gofal diogel, effeithiol a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau’n cael eu rheoli a’u harwain a ph’un a yw’n arwain at ddarparu gofal effeithiol a diogel. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau’n adolygu ac yn monitro eu perfformiad yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir mwy o fanylion am ein methodoleg yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Orthodontig Cas-gwent yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn ardal Cas-gwent yn Sir Fynwy. Mae'n ddeintyddfa ran amser ac yn rhan o'r gwasanaethau orthodontig a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Orthodontig Cas-gwent yn ddeintyddfa gymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Cyfeirir cleifion y GIG at y ddeintyddfa hon gan eu deintydd.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un nyrs (sydd hefyd â chyfrifoldebau fel rheolwr practis), ac un aelod o staff ar y dderbynfa.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau orthodontig y GIG a gwasanaethau orthodontig preifat.

## 3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Orthodontig Cas-gwent yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion a siaradodd gyda ni yn hapus ac yn hyderus gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd yr aelodau staff a siaradodd gyda ni yn hapus yn eu swyddi
- Roedd yr aelodau staff wedi mynychu'r hyfforddiant a'r systemau arfarnu perthnasol
- Mae'r cyfleusterau clinigol yn cynnwys digon o offer da ac mae'r offer yn lân a thaclus.

Argymhellwn y gallai'r practis wella'r canlynol (gweler Atodiad A i gael mwy o fanylion):

- Y wybodaeth a ddarperir yn y weithdrefn gwynion
- Y systemau ar gyfer gwneud yn siŵr bod yr offer argyfwng yn ddiogel i'w defnyddio
- Dogfennaeth a threfniadau ar gyfer defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel
- Gwelliannau i gofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi hanes cymdeithasol a system ar gyfer gwirio hanes meddygol
- Trefniadau rheoli er mwyn sicrhau bod aelodau staff yn cael digon o amser i gyflawni eu dyletswyddau a bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Roedd adborth y cleifion a gafwyd drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol a dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon â'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn yn y ddeintyddfa. Roeddem yn argymell bod y weithdrefn gwynion yn cael ei diweddaru a'i harddangos fel y gall cleifion ei gweld.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y ddeintyddfa i roi holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Llenwyd ugain o holiaduron. Roedd y canlynol ymysg sylwadau'r cleifion:

> *"Rwy'n teimlo'n hyderus bob amser wrth fynd i'r ddeintyddfa."*
>
> *"Rwy'n hapus iawn gyda'r driniaeth a roddwyd i fy mhlentyn."*
>
> *"Mae'r aelodau staff yn gwrtais a chroesawgar bob amser."*

**Gofal urddasol**

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Mae'r ddeintyddfa'n fach ac mae trafodaethau cyfrinachol gyda'r cleifion yn digwydd yn yr ystafell driniaeth ei hun. Gwelsom aelodau staff yn siarad gyda'r cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a lenwodd yr holiadur yn gadarnhaol. Dywedodd y cleifion a siaradodd gyda ni eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn yn y ddeintyddfa a'u bod yn cael croeso gan yr aelodau staff.

**Gofal amserol**

Mae'r ddeintyddfa'n ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol; fodd bynnag, mae hon yn ddeintyddfa orthodontig, ran amser, a chynigir nifer cyfyngedig o apwyntiadau. Darperir triniaeth y tu allan i oriau arferol a thriniaeth frys gan y bwrdd iechyd lleol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi gorfod aros cyn cael gweld deintyddion. Roedd y rhai y bu'n rhaid iddynt aros yn dweud nad oedd hynny wedi digwydd yn aml nac am hir iawn.

Roedd adborth o'r holiaduron yn dangos i ni fod y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i fanteisio ar y gofal deintyddol y tu allan i oriau arferol. Cadarnhawyd fod rhif cyswllt brys i'w ffonio y tu allan i oriau arferol wedi ei roi ar y neges ar beiriant ateb y dderbynfa, er mwyn i gleifion gael gofal deintyddol

brys pan fo'r ddeintyddfa ar gau. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos y tu allan i'r ddeintyddfa ac roeddem yn cynghori y dylai'r ddeintyddfa roi sylw i'r mater hwn. Ers hynny, mae'r ddeintyddfa wedi rhoi gwybod inni eu bod wedi rhoi'r rhif ffôn ar gyfer argyfyngau yn ogystal â rhif y ddeintyddfa ar hysbysiad ger y drws ffrynt.

## Aros yn iach

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a lenwodd yr holiadur eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd un claf y byddai wedi hoffi cael mwy o wybodaeth ysgrifenedig am y driniaeth a dderbyniodd. Roeddem yn cynghori y dylai'r ddeintyddfa ystyried gwneud hynny.

Sylwom ar rywfaint o daflenni ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu yn yr ystafell aros. Roeddem yn cynghori y dylai'r ddeintyddfa ddarparu mwy o wybodaeth hybu iechyd megis ymwybyddiaeth o ganser y geg a gwybodaeth am ffyrdd y gallai'r cleifion, gan gynnwys plant, wella eu hylendid geneuol. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn gymorth i annog cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

## Gofal unigol

Mae'r ddeintyddfa wedi ei lleoli ar y llawr cyntaf ac, oherwydd cyfyngiadau'r adeilad, ceir mynediad drwy risiau allanol metel ac nid yw'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn na chleifion sy'n cael anhawster yn symud.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i drafod unrhyw broblemau neu bryderon gyda'r aelodau staff. Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi gosod blwch awgrymiadau yn y dderbynfa yn ddiweddar er mwyn ceisio adborth cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Roedd gan y ddeintyddfa weithdrefn er mwyn i gleifion gael mynegi pryderon (cwynion). Nid oedd y weithdrefn yn glir mewn perthynas â'r broses a'r sefydliadau y dylai'r cleifion gysylltu â hwy yn ddibynnol ar a oeddent yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG. Gwelsom hefyd fod manylion cyswllt AGIC ar goll.

Roedd taflen y ddeintyddfa yn cyfeirio'n fyr at yr hyn y dylai cleifion ei wneud os oeddent yn anfodlon â'u gofal, ond nid oedd y weithdrefn gwynion wedi ei harddangos yn y ddeintyddfa.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r ddeintyddfa ddiweddaru'r weithdrefn gwynion er mwyn sicrhau:***

- **Bod y weithdrefn gwynion yn glir ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol y dylai cleifion gysylltu â hwy yn ddibynnol ar a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG**
- **Bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu cynnwys**
- **Bod y weithdrefn gwynion yn cael ei harddangos mewn man lle gall cleifion ei gweld yn glir. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am yr wybodaeth hon.**

Dywedwyd wrthym nad oedd y ddeintyddfa wedi derbyn unrhyw gwynion ysgrifenedig. Gwelwyd templed ar gyfer dadansoddi cwynion yn y ffeil bolisi. Dywedwyd wrthym fod cwynion llafar ac anffurfiol yn cael eu cofnodi yn ffeiliau cleifion. Fodd bynnag, roeddem yn cynghori'r ddeintyddfa y byddai'n briodol cynnwys hyn mewn llyfr log ar wahân, er mwyn i gwynion gael eu cofnodi ac fel bod themâu cyffredin yn haws i'w gweld.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Yn gyffredinol, gwelsom fod y trefniadau er mwyn amddiffyn aelodau staff a chleifion rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal yn ddigonol yn y ddeintyddfa hon. Roeddem yn nodi bod angen gwelliannau o ran y defnydd o offer radiograffig. Gwelsom hefyd fod angen mwy o fanylion ynglŷn â hanes cymdeithasol cleifion yn eu cofnodion a bod angen gwella 'r system o ddiweddaru a llofnodi cofnodion hanes meddygol.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn lân gydag arwynebau gwaith a llawr addas. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi eu cynnal er mwyn sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd y peiriant sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd) yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd aelodau staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd. Roedd yn amlwg bod y ddeintyddfa'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod yn strategol ac wedi eu gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared â gwastraff cyffredin a gwastraff peryglus.

*Diheintio*

Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau yn y ddeintyddfa hon i ddiogelu aelodau staff a chleifion rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. Gwelsom dystiolaeth o gamau effeithiol i atal a rheoli heintiau sy'n seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05). Roedd y canlynol ymysg yr enghreifftiau:

- Roedd llyfrau log ar gyfer gwirio offer wedi eu cadw ac roedd archwiliadau rheolaidd o'r gofynion rheoli heintiau wedi eu cynnal.
- Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr offer ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol wedi ei brofi er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn ac roedd yn amlwg ei fod mewn cyflwr da.
- Roedd offerynnau'n cael eu cadw'n briodol.
- Roedd offer diogelwch personol megis menig tafladwy, ffedogau a sbectol ddiogelwch ar gael. Roedd yno sinc benodol ar gyfer ymolchi dwylo.

- Gwelsom gofnodion priodol yn ymwneud â statws imiwneiddiad Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y ddeintyddfa, sy'n dangos bod y ddeintyddfa'n cymryd camau i amddiffyn aelodau staff rhag heintiau.

Gwelsom aelod o staff yn dilyn gweithdrefn ddiheintio ar gyfer sterileiddio offerynnau deintyddol. Nid oedd offer diogelwch personol (ffedog a sbectol ddiogelwch) yn cael eu gwisgo ar yr achlysur hwn. Gwelsom mai'r rheswm am hyn oedd bod y nyrs yn brysio a bod y diheintio yn digwydd rhwng dyletswyddau nyrsio. Roeddem yn cynghori'r ddeintyddfa i sicrhau bod aelodau staff yn cael digon o amser i ddilyn yr holl weithdrefnau diheintio bob tro iddynt gael eu cynnal ac i arddangos y gweithdrefnau er mwyn atgoffa'r aelodau staff.

*Storio cyffuriau ac offer brys*

Roedd offer adfywio a chyffuriau ar gyfer argyfwng ar gael yn y ddeintyddfa ac fe'u cadwyd yn briodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU). Dim ond dyddiad terfyn y cyffuriau oedd wedi ei gofnodi yn y llyfr log cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng, ac nid oedd unrhyw arwydd o ba bryd y cafodd y cyffuriau a'r offer eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'w defnyddio. Dylid cynnal profion ar offer brys o leiaf unwaith yr wythnos er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r ddeintyddfa gael system gadarn o sicrhau bod yr holl offer a chyffuriau ar gyfer argyfyngau yn cael eu gwirio'n rheolaidd (bob wythnos) er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio.***

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod aelodau staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio dadebru cardio-anadlol (CPR). Dywedodd yr aelodau staff eu bod yn ymwybodol o'u swyddogaethau yn ystod argyfwng meddygol. Nid oes gan y ddeintyddfa hon swyddog cymorth cyntaf enwebedig ar hyn o bryd. Gwelsom hefyd fod rhai o'r defnyddiau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi dyddio, ond cawsant eu hadnewyddu ar ddiwrnod yr arolygiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r ddeintyddfa sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer cymorth cyntaf, gan gynnwys sicrhau bod defnyddiau cymorth cyntaf yn addas i'w defnyddio a bod aelod o staff ar gael sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.***

*Diogelu*

Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom bolisi diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd pob aelod o staff clinigol wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod y ddeintyddfa yn cynnal gwiriadau cyn cyflogi unrhyw aelod o staff newydd i weithio yn y ddeintyddfa. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan un o'r deintyddion a oedd wedi cofrestru ag AGIC dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi ei dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Cytunodd y deintydd y byddai'n gwneud cais am dystysgrif ar unwaith.

*Offer radiograffig*

Cawsom ein sicrhau bod yr offer a ddefnyddir ar gyfer cymryd radiograffau (pelydr-X) yn y ddeintyddfa hon yn ddiogel. Roedd delweddau pelydr-X yn cael eu prosesu'n ddigidol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Gwelsom fod pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant er mwyn bodloni safonau ar gyfer gweithwyr sy'n ymgymryd â gwaith o'r fath. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelwyd bod rhan o'r dderbynfa'n agored i'r man lle'r oedd radiograffau'n cael eu cymryd. Er mwyn helpu i sicrhau nad yw'r staff sy'n gweithio ar y dderbynfa yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd, roeddem yn cynghori y dylid diweddaru'r rheolau lleol er mwyn dangos y mannau a reolir yn glir. Roeddem hefyd yn cynghori y dylai'r ddeintyddfa sicrhau bod prosesau digonol ar waith i atal aelodau staff neu gleifion rhag mynd i'r man hwn tra bo pelydr-X yn cael ei gynhyrchu.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid diweddaru'r rheolau lleol er mwyn dangos y man a reolir yn yr ystafell lle cynhyrchir radiograffau a sicrhau bod systemau addas ar waith i atal aelodau staff a chleifion rhag mynd i'r man a reolir tra bo pelydr-X yn cael ei gynhyrchu.***

## Gofal effeithiol

Mae'r cleifion yn elwa o ddeintyddfa sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus ac yn monitro ei gynnydd. Gwelwyd cofnodion sicrwydd ansawdd ar gyfer delweddau pelydr-X. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau rheoli heintiau

yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae aelodau staff clinigol yn cynnal adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid yn flynyddol. Cynhelir yr adolygiadau hyn ar y cyd ag aelodau staff yn y chwaer-ddeintyddfa.

## Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar sampl fechan o gofnodion cleifion y ddau ddeintydd yn y ddeintyddfa a gwelsom fod y cofnodion a gedwir o safon dda yn gyffredinol. Roedd cynlluniau triniaeth yn cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r claf neu riant y claf ac roedd opsiynau ar gyfer triniaethau'n cael eu cofnodi. Roedd pob radiograff a gymerwyd yn cael ei gyfiawnhau yn y cynllun triniaeth. Gwelsom rai meysydd y gellid eu gwella:

- Nid oedd y cofnodion hanes meddygol yn cynnwys digon o wybodaeth am hanes cymdeithasol y cleifion
- Nid oedd y cofnodion hanes meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf na'u cydlofnodi gan y deintydd yn gyson. Nid yw'n orfodol cydlofnodi ond rhaid i'r ddeintyddfa sefydlu system gyson o sicrhau bod pob cofnod hanes meddygol yn cael ei wirio gan y deintydd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i nodiadau cleifion, gan gynnwys cofnodi'r canlynol yn gyson a chywir:***

- **Hanes cymdeithasol**
- **Cofnodion hanes meddygol.**

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom fod yr aelodau staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gwelsom fod angen nifer o welliannau i bolisïau a gweithdrefnau. O ystyried ein canfyddiadau yn yr arolygiad hwn, roeddem yn argymell y dylai'r ddeintyddfa adolygu'r trefniadau staffio a rheoli er mwyn sicrhau bod gan staff ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac i adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau'n rheolaidd.**

Mae hon yn ddeintyddfa ran amser sy'n berchen i dri deintydd sydd hefyd yn berchen ar ddeintyddfa arall yn Lloegr. Mae un o'r deintyddion yn gweithio yn neintyddfa Cas-gwent un diwrnod yr wythnos. Mae gan y ddeintyddfa hefyd ddeintydd cysylltiol sy'n gweithio ddau ddiwrnod yr wythnos. Cyfrifoldeb y nyrs yw rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd ac mae ganddi amrywiaeth o ddyletswyddau eraill hefyd, gan gynnwys cyfrifoldebau nyrs ddeintyddol, cynnal gweithdrefnau diheintio, glanhau, a rhywfaint o waith ar y dderbynfa. Roedd yr aelodau staff a siaradodd gyda ni yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Gan fod tîm y staff yn fach, roedd yr aelodau staff a'r prif ddeintydd yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn anffurfiol tra oedd y deintydd yn gweithio yn yr ystafell driniaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd staff ffurfiol bob mis a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu cofnodi. Dywedodd aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo bod modd iddynt fynegi unrhyw bryderon yn y cyfarfodydd hyn.

Cadarnhawyd fod pob aelod o staff perthnasol wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi ei gofrestru ag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y ddeintyddfa.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion i ddangos bod aelodau staff yn cael dilyn hyfforddiant perthnasol i'w swyddogaeth ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd gan y ddeintyddfa raglen sefydlu ffurfiol a ddefnyddir ar gyfer unrhyw aelodau staff newydd neu asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau'n cael eu cynnal bob blwyddyn, sy'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir ac er mwyn adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant.

Dywedwyd wrthym mai'r nyrs oedd yn gyfrifol am greu a diweddaru pob polisi a gweithdrefn yn y ddeintyddfa yn ogystal â'i dyletswyddau eraill. Yn gyffredinol, gwelsom fod angen trefnu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau. Roedd angen teilwra rhai polisïau ar gyfer y ddeintyddfa hefyd. Roeddem yn cynghori hefyd y dylai pob polisi gynnwys dyddiadau a llofnodion y staff, i ddangos mai'r

fersiynau hyn oedd y rhai diweddaraf, a'r dyddiad y cafodd ei ddiweddaru ddiwethaf. Gwelsom fod angen gwneud y gwelliannau canlynol i'r polisïau:

- Nid oedd y polisi diogelu data a'r polisi diogelwch data yn cynnwys manylion am drefniadau yn y ddeintyddfa
- Roedd angen diweddaru'r polisi iechyd a diogelwch er mwyn cynnwys y trefniadau ar gyfer gweithrediadau codi a chario, a darparu a defnyddio offer gwaith sy'n ymwneud â'r ddeintyddfa.

O ystyried ein canfyddiadau o'r arolygiad hwn, ni ellid ein sicrhau bod digon o drefniadau staffio a rheoli ar waith i sicrhau bod gan aelodau staff ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau ac i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i hyrwyddo diogelwch cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r ddeintyddfa adolygu'r trefniadau staffio a rheoli er mwyn sicrhau bod aelodau staff yn cael digon o amser i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac er mwyn adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau'n rheolaidd.***

O ystyried y nifer o welliannau a ganfuwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi sylw i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a blaenweithgar ar waith yn y ddeintyddfa er mwyn monitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes argymhelliad penodol wedi ei wneud ynglŷn â hyn, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant nodedig yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad nesaf.

## 5. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r ddeintyddfa gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i roi sylw i brif ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pa bryd ac ym mha ffordd y bydd yr hyn a ganfuwyd ym Mhractis Orthodontig Cas-gwent yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y ddeintyddfa i ymateb i'r materion a nodwyd fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC ynghylch y materion hynny.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r ddeintyddfa yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r ddeintyddfa roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o weithredu arolygiadau mewn ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel, dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau yn allweddol i'r dyfarniadau a wnawn ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sydd yn gweithio yn y ddeintyddfa sydd wedi cofrestru gydag AGIC i gynnig deintyddiaeth breifat hefyd yn destun i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r ddeintyddfa yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion deintyddol
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r ddeintyddfa
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y ddeintyddfa a'r wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i'r ddeintyddfa a'r bwrdd iechyd drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae archwiliadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y ddeintyddfa ar ddiwrnod yr ymweliad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Orthodontig Cas-gwent / Smile Solution Ltd

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Mawrth 2016

| Rhif tudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r ddeintyddfa | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6-7 | Rhaid i'r ddeintyddfa ddiweddaru'r weithdrefn gwynion er mwyn sicrhau:<br>• Bod y drefn gwynion yn glir ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â hwy yn ddibynnol ar a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG<br>• Bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu cynnwys<br>• Bod y weithdrefn gwynion yn | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran15(4a); Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>Safonau 5 | Mae'r weithdrefn gwynion yn cael ei diweddaru a'i harddangos yn yr ystafell aros gyda'r wybodaeth berthnasol. Cedwir y polisi cwynion mewn ffolder ar wahân erbyn hyn. | Rheolwr y Ddeintyddfa | Cwblhawyd |

| Rhif tudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r ddeintyddfa | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cael ei harddangos lle gellir ei gweld yn rhwydd gan gleifion. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am yr wybodaeth hon. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Rhaid i'r ddeintyddfa sefydlu system gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl offer a chyffuriau ar gyfer argyfyngau'n cael eu gwirio'n rheolaidd (yn wythnosol) er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas i'w defnyddio. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU – Canllawiau gofal deintyddol sylfaenol | Mae system newydd ar waith er mwyn cofnodi gwiriadau wythnosol ar gyffuriau ac offer cymorth cyntaf/brys. | Rheolwr y Ddeintyddfa | Cwblhawyd |
| 9 | Rhaid i'r ddeintyddfa sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer cymorth cyntaf, gan gynnwys sicrhau bod defnyddiau cymorth cyntaf yn addas i'w defnyddio a bod aelod o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 | Mae'r holl ddefnyddiau cymorth cyntaf wedi eu diweddaru ac yn addas i'w defnyddio. Mae pob aelod o staff yn gwneud hyfforddiant adfywio a diffibrilio allanol awtomataidd yn ogystal â hyfforddiant argyfwng meddygol.<br><br>Hyfforddiant cymorth cyntaf – cwrs wedi ei gwblhau. | Rheolwr y Ddeintyddfa | Cwblhawyd |

| Rhif tudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r ddeintyddfa | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Rhaid diweddaru'r rheolau lleol er mwyn dangos yn glir y man a reolir yn yr ystafell lle cymerir radiograffau a sicrhau bod systemau addas ar waith i atal aelodau staff a chleifion rhag mynd i'r man a reolir tra bo pelydr-X yn cael ei gynhyrchu. | Rheoliadau Deintyddieth Breifat (Cymru) (2008), Rheoliad 14(1); Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.9 | Mae'r rheolau lleol wedi eu diweddaru ac mae'r man a reolir wedi ei ddynodi erbyn hyn. Mae'r drws i'r ystafell aros wedi ei gloi bob amser i atal cleifion rhag mynd i'r ardal a reolir. Rhaid i aelodau staff fod o leiaf un medr oddi wrth ben y pelydr-X. | Rheolwr y Ddeintyddfa | Cwblhawyd |
| 11 | Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i nodiadau cleifion, gan gynnwys cofnodi'r canlynol yn gyson a chywir:<br>• Hanes cymdeithasol<br>• Hanes meddygol. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1 | Mae orthodeintyddion bellach yn arwyddo'r ffurflenni hanes meddygol ar gyfer pob cwrs o driniaeth a llenwir hanes cymdeithasol y claf, h.y. ysmygu/yfed alcohol. | Orthodeintyddion | Cwblhawyd |
| **Ansawdd y Rheolaeth a'r Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Dylai'r ddeintyddfa adolygu'r trefniadau staffio a rheoli i sicrhau bod aelodau staff yn cael digon o amser i gyflawni eu dyletswyddau'n | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 7.1; | Mae aelodau staff ychwanegol wedi eu cyflogi i helpu gyda rhai dyletswyddau ac mae rhai dyletswyddau wedi eu dirprwyo i | Rheolwr y Ddeintyddfa | Cwblhawyd |

| Rhif tudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r ddeintyddfa | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | effeithiol ac er mwyn adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau'n rheolaidd. | Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6 | aelodau eraill o staff. | | |

**Cynrychiolydd y Ddeintyddfa:**

**Enw (llythrennau bras):** **Mrs Linda Roberts**

**Teitl:** **Rheolwr y Ddeintyddfa**

**Dyddiad:** **25 Mai 2016**